Y Gwasanaeth Ymchwil | Research Service

# Papur Briffio ar gyfer y Pwyllgor Deisebau

**Y Pwyllgor Deisebau | 13 Mehefin 2018**
**Petitions Committee | 13 June 2018**

**Rhif y ddeiseb**: P-05-817

**Teitl y ddeiseb**: Aelodau prosthetig arbenigol i blant

Testun y ddeiseb: Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod nawdd ar gael er mwyn darparu aelodau prosthetig chwaraeon arbenigol i bob plentyn yng Nghymru sydd wedi colli coes / braich.

Rydym yn croesawu'r newyddion diweddar fod Llywodraeth San Steffan wedi cadarnhau bydd £1.5 miliwn ychwanegol ar gael i ddatblygu aelodau prosthetig arbenigol i blant a phobl ifanc yn Lloegr.

Rydym yn gofyn am yr un lefel o gefnogaeth i blant a phobl ifanc yng Nghymru, fel bod aelod prosthetig arbenigol ar gael drwy'r GIG i unrhyw blentyn neu berson ifanc buasai'n elwa o gael un.

## Y cefndir

Yng nghyllideb mis Mawrth 2016, ymrwymodd Llywodraeth y DU i fuddsoddi £1.5 miliwn mewn aelodau prosthetig i blant. Y bwriad oedd dyrannu'r arian, gan yr Adran Iechyd, rhwng 2016/17 a 2017/18 ac, ers hynny, penderfynwyd ymestyn y cyfnod am ddwy flynedd arall.

Cronfa ar gyfer plant Lloegr sydd naill ai wedi'u geni heb aelod, neu sydd wedi colli aelod, yw hon, a chaiff ei defnyddio i dalu am aelod prosthetig arbenigol gan y GIG a fydd yn helpu plant i redeg, i nofio neu i gymryd rhan mewn chwaraeon.

Mae arian o'r gronfa hon, sy'n cael ei galw'n *Children's Activity Prosthetic Fund,* yn cael ei rannu rhwng canolfannau aelodau sy'n cael eu rhedeg gan y GIG yn Lloegr, i dalu am aelodau prosthetig, a'r *Child Prosthetics Research Collaboration* (a ariennir drwy'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd (NIHR)), i gyflwyno'r dechnoleg ddiweddaraf yn y GIG.

Croesawyd y gronfa yn gyffredinol fel cam pendant ymlaen i helpu plant i gymryd rhan mewn chwaraeon, ac i gyfrannu'n llawn at weithgareddau ymarfer corff yr ysgol a'r gymuned. Mae'r meini prawf cymhwystra a'r ffurflenni cais ar gyfer aelodau prosthetig arbenigol yn Lloegr i'w cael yma.

### Cyllid ar gyfer aelodau prosthetig arbenigol i blant yng Nghymru

Nid yw GIG Cymru yn cael unrhyw arian penodol i ddarparu aelodau prosthetig arbenigol i blant.

Yng Nghymru, mae tair canolfan arbenigol (ALAC) sy'n darparu gwasanaethau adsefydlu gan y GIG i'r rhai sydd wedi colli aelod, neu sydd wedi cael aelod prosthetig, ac mae'r canolfannau hyn yng Nghaerdydd, Abertawe a Wrecsam. Caiff y gwasanaeth ei gomisiynu'n ganolog gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) ar ran y saith Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru.

Mae Polisi Gwasanaeth Arbenigol WHSSC, sef 'Manyleb Gwasanaeth y Gwasanaethau Arbenigol: CP89 Gwasanaethau adsefydlu i'r rhai sydd wedi colli aelod a'r rhai sydd wedi cael aelod prosthetig' yn datgan (Saesneg yn unig):

> **Provision of a Recreational Upper Limb for a Child**
>
> **Definition**
>
> A prosthetic solution that is provided to meet a specific need of the developing child. Examples could be a prosthesis specially manufactured to enable a child to ride a cycle safely etc
>
> Criteria for provision
>
> - To facilitate the child's participation in school activities
> - To support the child's clinical & psychological development

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.